

Hysbysiad preifatrwydd – Aelodau Bwrdd yr ASB

Gwybodaeth am y polisi preifatrwydd ar gyfer Aelodau Bwrdd yr ASB, pam fod angen y data arnom ni, yr hyn a wnawn ni gyda'r data a'ch hawliau.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam fod angen yr wybodaeth hon arnom ni?

Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn gallu penodi i Fwrdd yr ASB ac yn achos ymgeiswyr llwyddiannus, gwybodaeth ar gyfer busnes cyffredinol mewn perthynas â'r gweinyddu sy'n gysylltiedig â'ch rôl yn y pwyllgor.

Rydym ni'n gwneud hyn yn unol â'n dyletswyddau statudol ac wrth ymarfer yr awdurdodau swyddogol a freiniwyd yn yr ASB a pherfformiad tasgau a wneir er lles y cyhoedd. Ni fyddwn ni'n casglu unrhyw ddata personol gennych chi nad ydym ni ei angen.

Gallai methu â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani arwain at wrthod eich cais neu oedi wrth brosesu eich cais. Yn achos ymgeiswyr llwyddiannus, gallai methu â darparu'r wybodaeth arwain at oedi ym musnes cyffredinol y Bwrdd.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hyn rydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu, gydag ymgeiswyr aflwyddiannus, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw am 5 mlynedd ar ôl iddi ddod i law. Yn achos ymgeiswyr llwyddiannus, byddwn yn cadw'r wybodaeth hyd at 6 mlynedd ar ôl i dymor eich penodiad ddod i ben.

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae'n bosibl y bydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i aelodau eraill o'r panel recriwtio nad ydynt yn gweithio i'r ASB. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Eich hawliau

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).